Rhif Ymchwil gymdeithasol: 1/2018
Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2018

# Gwerthusiad o'r Prosiectau Twristiaeth Arfordirol a Thwristiaeth Gynaliadwy

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Rhagymadrodd

1.1 Dyma'r gwerthusiad terfynol ynglŷn â dau o brosiectau Amgylchedd ar gyfer Twf (E4G) – Twristiaeth Gynaliadwy a Thwristiaeth Arfordirol (gan gynnwys rhaglen Moroedd Glas) – a gafodd eu datblygu a'u rheoli gan Groeso Cymru. Cafodd prosiectau E4G gyllid o raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar gyfer Cymru 2007-2013. Nodau'r prosiectau oedd gwella atyniad cyfleusterau naturiol ac adeiledig, datblygu "Canolfannau Rhagoriaeth" a gweithgareddau deillio; datblygu marinâu, llwybrau beicio a cherdded; gwella mynediad i'r arfordir a chefn gwlad; a datblygu'r potensial ar gyfer hamdden a gweithgarwch economaidd cynaliadwy.

1.2 Roedd rhaglen E4G yn ei chrynswth yn cynnwys chwe phecyn prosiect: Parc Rhanbarthol y Cymoedd; Twristiaeth Treftadaeth; Cymunedau a Natur; Llwybr Arfordir Cymru; Twristiaeth Gynaliadwy; a Thwristiaeth Arfordirol. Ceir crynodebau byr o'r prosiect Twristiaeth Arfordirol a'r prosiect Twristiaeth Gynaliadwy isod:

- Cafodd y prosiect Twristiaeth Arfordirol gyfanswm o £18.9 miliwn ac o hyn daeth £8.7 miliwn o'r ERDF. Roedd y rhaglen yn cynnwys tair Canolfan Ragoriaeth i ddechrau: Chwaraeon Dŵr Bae Abertawe, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Aberdaron, a Sir Benfro. Cafodd un arall, Harbwr Morol Saundersfoot, ei hychwanegu wedyn. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys buddsoddiadau'r rhaglen Moroedd Glas yn y Gogledd a'r De.

- Cafodd y prosiect Twristiaeth Gynaliadwy hefyd gyfanswm o £18.9 miliwn y daeth £8.2 miliwn ohono o'r ERDF. Roedd y rhaglen yn cynnwys pedair Canolfan Ragoriaeth: Beicio'r De (Cognation), Un Ardd Hanesyddol, Canolfan Ragoriaeth Beicio'r Gogledd, a Chanolfan Ragoriaeth Eryri (Un Antur Fawr).

1.3 Ar draws yr wyth Canolfan Ragoriaeth a'r Rhaglen Werdd, cafwyd hyd at 50 o weithgareddau buddsoddi gwahanol ar amryw o safleoedd ledled y ddwy

ardal yn rhaglen yr ERDF. Rhannwyd cyllid yr ERDF yn eang, a symiau cymharol fach a roddwyd i rai mannau a gweithgareddau penodol.

1.4 Mae'r buddsoddiadau yn y prosiect Twristiaeth Gynaliadwy a'r prosiect Twristiaeth Arfordirol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau strategol a nodwyd yn Strategaeth Twristiaeth Cymru “Cyflawni Ein Potensial” a osododd nodau o ateb anghenion y cwsmeriaid, gweithio'n arloesol, rheoli cyrchfannau'n gyfrifol, a chynyddu elw busnesau i'r eithaf, ochr yn ochr â nodau polisi bras o ategu cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldebau a chynaliadwyedd. Gosododd hyn gyd-destun polisi eang o ran yr hyn y dylai'r buddsoddiadau hyn mewn twristiaeth ei sicrhau.

1.5 Cafodd y prosiectau eu datblygu mewn cyfnod sydd wedi bod yn un anodd i economi twristiaeth Cymru. Ar gyfer cyfnod dan sylw'r adroddiad hwn cynyddodd ymweliadau dros nos gan ymwelwyr o fewn Prydain Fawr, tra bu lleihad mewn ymweliadau rhyngwladol. Arhosodd yr amgylchedd economaidd yn anodd hefyd gan gyfyngu ar fentrau twristiaeth o ran sicrhau buddsoddiadau gan y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.

## 2. Cwmpas a Diben y Gwerthusiad

2.1 Un uchelgeisiol yw cwmpas y gwerthusiad ynglŷn â'r prosiect Twristiaeth Gynaliadwy a'r prosiect Twristiaeth Arfordirol. Comisiynodd Croeso Cymru gwmni ymgynghori Regeneris Consulting a The Tourism Company i ateb chwe chwestiwn hanfodol a bodloni wyth amcan penodol:

- Cwestiynau ynghylch sut aeth gweithgareddau'r prosiectau ati i adlewyrchu'r ymrwymiadau a nodwyd yn y cynlluniau busnes; deilliannau tybiedig y prosiect i'r buddiolwyr; sut roedd deilliannau'r prosiectau'n cymharu â'r sefyllfa pe bai'r buddsoddiadau heb eu gwneud; effeithiau a goblygiadau hirdymor posibl tynnu'r cyllid yn ôl; gwaith cyflawni'r prosiectau ac arferion da; a'r gwersi a ddysgwyd.
- Amcanion o roi dealltwriaeth annibynnol o sut perfformiodd y prosiectau; adolygu'r gwaith cyflawni a rheolaeth partneriaid y prosiect; asesu'r cyrhaeddiad o'i gymharu â nodau trawsbynciol; adolygu'r cynnydd o'i gymharu â'r effeithiau cymdeithasol; adolygu'r cyllid cyfatebol a'r cymorth; adolygu'r gwaith monitro a gwerthuso; ystyried gwaddol y prosiectau; ac ystyried y marchnata.

2.2 I ateb y cwestiynau hyn, defnyddiwyd ystod o ffrydiau gwerthuso gan gynnwys:

- Adolygu cynlluniau busnes y prosiectau, ffurflenni monitro ac adroddiadau blynyddol y prosiect yn ei grynswth a rhai'r Canolfannau Rhagoriaeth
- Ymgynghori â rheolwyr y prosiectau, rheolwyr y Canolfannau Rhagoriaeth, a'r swyddogion cyfrifol, y partneriaid perthnasol a'r rhanddeiliaid mewn llawer o'r 50 a rhagor o weithgareddau buddsoddi a ariannwyd
- Ystyried y dystiolaeth sylfaenol, tystiolaeth y gwaith monitro a thystiolaeth y gwaith gwerthuso a wnaed ar gyfer y gweithgareddau buddsoddi

- Ymchwil gomisiwn benodol ynglŷn â'r ddau brosiect fel yr ymchwil a wnaed gan Ysgol Fusnes Caerdydd i amcangyfrif effaith economaidd yn gysylltiedig â gwariant ymwelwyr a gwariant ar adeiladu.

2.3 O fewn cwmpas gwerthusiad mor uchelgeisiol, mae i ba raddau y mae modd ymdrin â'r holl gwestiynau ac amcanion hyn yn dibynnu ar y data sydd ar gael ac ansawdd y data hwnnw, trywydd y dystiolaeth ddogfennol, a safbwynt a barn swyddogion a buddiolwyr. Cododd nifer o heriau yn ystod y gwerthusiad a fu'n cyfyngu ar allu'r gwerthuswyr i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol:

- Er bod Croeso Cymru wedi gosod targedau ac wedyn wedi casglu data monitro ac wedi cyflwyno adroddiadau arno ar sail synhwyrol ar gyfer y Canolfannau Rhagoriaeth er mwyn ymdrin â'u gofynion yn y contract â WEFO, doedd dim modd hawdd i'r gwerthuswyr gyrchu dadansoddiad cynhwysfawr wedi'i ddadagregu o'r allbynnau a'r canlyniadau hyn ar draws y gweithgareddau buddsoddi – mae hyn yn bwysig o ran pwyso a mesur effeithiolrwydd gweithgareddau penodol wrth greu allbynnau, canlyniadau a gwerth am gyllid.
- Er bod canllawiau wedi'u darparu gan WEFO a Chroeso Cymru ynghylch mesur dangosyddion allbwn a chanlyniadau, nid yw'r rhain wedi'u defnyddio'n gyson drwy'r amser gan y Canolfannau Rhagoriaeth na'r cyrff cyflawni yn achos y dangosydd sy'n ymwneud ag ymwelwyr yn benodol. Cafwyd dryswch yn achlysurol o ran a oedd hyn yn mesur ymweliadau ynteu ymwelwyr ac ai ymweliadau gros ynteu ymweliadau ychwanegol.
- O gofio bod cyllid y prosiectau i'r Canolfannau Rhagoriaeth o dan gyfyngiad amser ac o gofio bod y gwerthusiad wedi'i amseru tua diwedd oes y prosiect, roedd nifer o reolwyr y Canolfannau Rhagoriaeth a'r staff a oedd yn gyfrifol am roi'r buddsoddiadau ar waith wedi gadael eu swyddi adeg y gwerthusiad. Roedd hynny'n ei gwneud yn anodd casglu safbwynt y prosiect mewn rhai achosion.
- Bu'r ymchwil ar effaith economaidd a gomisiynwyd gan Groeso Cymru (a phartneriaid eraill E4G) gan Brifysgol Caerdydd yn ffynhonnell tystiolaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r effeithiau sy' ymwneud ag ymwelwyr ac adeiladu yn achos y Canolfannau Rhagoriaeth, a hynny ar sail gwaith helaeth i arolygu ymwelwyr. Er hynny, cafodd yr ymchwilwyr anawsterau wrth geisio sicrhau data sylfaenol cadarn (ac weithiau data ar ymwelwyr ar ôl y buddsoddiad) ac felly un gwendid anhepgor yn yr ymchwil yw nad yw'n gwahaniaethu rhwng effeithiau ychwanegol gros a net. Tanlinellir hyn ymhellach yn yr adran isod sy'n ymwneud â gwersi ar gyfer rhaglen newydd yr ERDF.

## 3. Y Cynnydd Cyffredinol

3.1 Cafodd targed cyffredinol gwariant yr ERDF ei fodloni ar ychydig o dan £17 miliwn, er bod y cyfansoddiad wedi newid ychydig (£8.2 miliwn ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy ac £8.7 miliwn ar gyfer Twristiaeth Arfordirol o'i gymharu â'r dyraniad gwreiddiol o £8.5 miliwn yr un). £37.7 miliwn oedd cyfanswm y gwariant, gyda chyfraniadau sylweddol gan awdurdodau lleol,

asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus a £4.1m o gyllid o'r sector preifat ac ymddiriedolaethau elusennol (fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

3.2 Bu'r cyllid hwn yn fodd i wireddu ystod eang o seilweithiau a chyfleusterau i ymwelwyr yn unswydd ar gyfer amryw o farchnadoedd targed ledled Cymru. Ar lefel y Canolfannau Rhagoriaeth, mae neges weddol glir wedi dod i'r amlwg fod y cynlluniau busnes gwreiddiol wedi'u rhoi ar waith yn unol â'r bwriad gwreiddiol i raddau helaeth. O gofio hyd a lled y gweithgareddau cyfalaf a oedd yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o'r Canolfannau Rhagoriaeth, mae'n anochel bod rhywfaint o waith cynllunio a datblygu wedi digwydd ar ôl i gyllid y prosiectau gael ei gymeradwyo. Arweiniodd hyn at rywfaint o ohirio wrth roi rhai mentrau ar waith, yn enwedig lle'r roedd angen diwygio'r cynlluniau gwreiddiol i adlewyrchu cyfyngiadau ar ddatblygiadau, cynlluniau neu gostau. Mae hyn yn deillio'n rhannol o'r diffyg cyfnod cynnull a chynllunio ar ddechrau cyfnod ariannu'r Canolfannau Rhagoriaeth a'u mentrau, er bod sylw wedi cael ei roi i hyn wrth gynllunio rhaglenni newydd yr ERDF.

3.3 Er hynny, bu'r Canolfannau Rhagoriaeth yn hyblyg ynglŷn â newidiadau mewn cyllid ac ymysg partneriaid: pan gafwyd newidiadau neu fentrau gwahanol, roedd yna resymau dealladwy a allai gael eu cyfiawnhau. Roedd y rhai y mae'n ymddangos bod eu cynlluniau'n gadarn ar y dechrau yn llai tebyg o newid y cyfansoddiad neu'r cyllid na'r prosiectau hynny a oedd yn gymharol lydan ac yn anodd eu cydlynu.

3.4 Mae'r gwerthuswyr o'r farn bod nifer o'r Canolfannau Rhagoriaeth wedi'u cynllunio, wedi'u datblygu ac wedi'u cyflawni'n arbennig o dda, gan gynnwys Cognation, Aberdaron a Harbwr Morol Saundersfoot. Cafodd pob un o'r rhain eu seilio ar strategaethau cadarn, buddsoddiadau a dargedwyd yn ofalus i wella'r seilwaith a'r arlwy presennol neu i ddarparu seilwaith ac arlwy newydd, ac yn aml ar drefniadau gweithredu llai trafferthus.

**Allbynnau**

3.5 At ei gilydd, cafodd y mwyafrif o'r allbynnau a ragwelwyd eu cyflawni, a gwnaed yn well na hynny mewn rhai achosion:

- Gwnaed yn well na'r prif fesur allbwn ynghylch "mentrau'n datblygu'r amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol" (35 o'i gymharu â tharged o 20), er bod y cynnydd i raddau helaeth yn adlewyrchu diffyg eglurder wrth ddiffinio'r dangosydd ynghylch beth sy'n cyfrif fel "menter" yn hytrach na newid mawr yng nghyfansoddiad y rhaglenni buddsoddi.
- Roedd yr alldro terfynol ar gyfer "mynediad dan reolaeth i gefn gwlad" (wedi'i fesur mewn cilometrau) ychydig yn llai na'r targed gwreiddiol (460 km o'i gymharu â'r 400 km a gyflawnwyd), yn gysylltiedig â llwybrau beicio'n bennaf.
- Roedd yr alldro terfynol ar gyfer "mentrau a gynorthwywyd" yn debyg i'r amcanestyniad gwreiddiol yn 2011 (44 yn achos y Prosiect Twristiaeth Gynaliadwy o'i gymharu â tharged gwreiddiol o 49 a 18 o'i gymharu â 15 yn achos y prosiect Twristiaeth Arfordirol). Er bod ein gwaith ymgynghori ni'n dangos bod yna wahaniaethau o ran sut mae'r dangosydd hwn wedi'i

ddehongli gan y Canolfannau Rhagoriaeth a'r staff cyflawni (ac er nad ydym bob amser wedi cael gweld y mentrau sy'n cael eu hawlio), mae'n hymchwil yn cynnig tystiolaeth resymol bod y prosiectau wedi darparu cyfleoedd i fentrau presennol a mentrau newydd ddechrau masnachu'n lleol.

**Tabl 1 Crynodeb o'r Allbynnau fesul Canolfan Ragoriaeth**

| | Cyfanswm (£m) | Mentrau | km | Mentrau a gynorthwywyd | Swyddi |
|---|---|---|---|---|---|
| Drwyddi draw | 37.7 | 44 | 430.9 | >70 | 130 |
| Twristiaeth Gynaliadwy | 18.9 | | | | |
| Eryri | 4.6 | 4 | 27 | 6 | 29 |
| Beicio'r Gogledd | 1.8 | 1 | 270 | 11 | 2 |
| Beicio'r De – Cognation | 4.4 | 1 | 72 | 25 | 14 |
| Un Ardd Hanesyddol | 4.6 | 7 | 34 | 11 | 14 |
| Y gweddill (e.e. marchnata canolog) | 3.5 | | | | |
| Twristiaeth Arfordirol | 18.8 | | | | |
| Chwaraeon Dŵr Bae Abertawe | 4.2 | 4 | 10 | 6 | 33 |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Aberdaron | 3.4 | 1 | 1 | 3 | 7.5 |
| Arfordir Sir Benfro | 4.0 | 8 | 1 | d/g | 24 |
| Ymddiriedolaeth Saundersfoot | 0.9 | d/g | 0.4 | d/g | 5 |
| Ac o'r rhain, Moroedd Glas: | | | | | 0 |
| Rhaglen Moroedd Glas – y de | 1.9 | 14 | 13 | 9 | 1 |
| Rhaglen Moroedd Glas – y gogledd | 0.9 | 6 | 2.5 | 0 | |
| *Y gweddill (e.e. marchnata canolog)* | *3.5* | | | | |

**Deilliannau, Effeithiau a Gwerth Ychwanegol**

3.6 Mae'r dystiolaeth ynglŷn â'r deilliannau hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan ond yn llai eglur o ran pa mor gadarn oedd y dystiolaeth isorweddol:

- Roedd nifer y "swyddi gros a grëwyd" gryn dipyn yn is na'r targed (sef swyddi sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cyfleusterau sydd wedi'u gwella yn hytrach na swyddi sy'n gysylltiedig â gwariant anuniongyrchol yr ymwelwyr). Cafodd targed y prosiect Twristiaeth Gynaliadwy ei gyrraedd (sef targed o 59), a llwyddwyd i wneud yn well (71) na'r targed diwygiedig yn achos y prosiect Twristiaeth Arfordirol (wedi'i ostwng o 240 i 53).
- Mae nifer yr 'ymweliadau' a gofnodwyd yn awgrymu bod y ddau brosiect wedi gwneud yn well na'r targedau a nodwyd yn 2011. Cofnododd Twristiaeth Gynaliadwy fwy nag 1.6 miliwn o ymwelwyr o'i gymharu â'r targed o 0.76 miliwn a chofnododd Twristiaeth Arfordirol 1.15 miliwn o'i gymharu â tharged o 250,000.

3.7 Fel y nodwyd yn gynharach, nododd ein dadansoddiad nifer o bryderon ynghylch yr 'ymweliadau' a gofnodwyd. Ceir rhywfaint o anghysondeb ar draws y gweithgareddau buddsoddi o ran ai 'cyfanswm yr ymweliadau' ynteu 'ymweliadau ychwanegol' yw'r deilliant sydd i'w fesur, rhywfaint o ddryswch o ran ai 'ymweliadau' ynteu 'ymwelwyr' yw'r deilliant sydd i'w fesur ac anghysondebau yn yr wybodaeth sylfaenol a gofnodwyd gan y mentrau. Mae'r dryswch hwn yn cyd-fynd â chyfyngiadau arwyddocaol ar sut mae ymweliadau/ymwelwyr wedi'u cyfrif neu wedi'u hamcangyfrif. Er bod angen rhywfaint o ofal ynglŷn â'r niferoedd ymwelwyr a gofnodwyd, mae'n rhesymol tybio bod y mentrau wedi gwneud yn well na'r targedu gwreiddiol llawer is.

3.8 Yn yr un modd, does dim llawer o dystiolaeth ynghylch profiad ymwelwyr ac a lwyddodd y buddsoddiad mewn gwell cyfleusterau i arwain at fwy o foddhad neu argraff fwy cadarnhaol. Doedd gwybodaeth am argraffiadau'r ymwelwyr ddim yn cael ei chofnodi mewn modd systemataidd.

3.9 Ni fu'n bosibl amcangyfrif yr effaith economaidd sy'n gysylltiedig â gweithgarwch ymwelwyr fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Er hynny, daeth astudiaeth Prifysgol Caerdydd i'r casgliad:

- bod yr effeithiau economaidd yn digwydd i raddau helaeth i ffwrdd o'r safleoedd i ymwelwyr eu hunain, sy'n gysylltiedig yn aml â chyfleoedd cyfyngedig i wario ar y safle sydd wedyn yn creu llai o botensial i greu effaith.
- serch hynny, adeg yr astudiaeth (2015), creodd effaith y gwariant gan ymwelwyr a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect Twristiaeth Gynaliadwy ryw £4.9 miliwn o Werth Ychwanegol Gros (GVA) y flwyddyn a rhyw 230 o swyddi gros cyfartal ag amser-llawn (tua £21,300 am bob swydd). O ran y prosiect Twristiaeth Arfordirol, effaith gwariant yr ymwelwyr oedd £8.8 miliwn o GVA y flwyddyn a rhyw 399 o swyddi cyfartal ag amser-llawn (rhyw £20,000 y swydd). Mae'n bwysig nodi mai effeithiau ychwanegol gros yn hytrach na net yw'r rhain oherwydd y diffyg data sylfaenol am y cyfnod cyn y buddsoddi ac y

bydd rhywfaint o'r effaith economaidd hon wedi'i gyfrif eisoes yn y swyddi gros a gofnodwyd yn yr adran flaenorol.

- Roedd y prosiectau hefyd yn cynnwys amcangyfrif o wariant ar adeiladu o £28 miliwn ar draws y ddau, yn cefnogi effaith economaidd untro o ryw £20 miliwn o GVA a 480 mlynedd o gyflogaeth.

3.10 Mae'r ymgynghori'n dangos tystiolaeth glir bod y buddsoddiadau wedi bod yn werthfawr o ran gwella enw da atyniadau ac ardaloedd penodol, yn enwedig lle cafodd y buddsoddiadau eu targedu'n ofalus ar asedau presennol, neu mewn cyfleusterau newydd neu eu crynhoi o ran eu lleoliad. Yn y mannau lle cafwyd buddsoddiadau mwy cryno (megis Cognation a'r buddsoddiad newydd yn Bike Park Cymru, Aberdaron neu Harbwr Morol Saundersfoot) y gellir gweld stori gliriach ynghylch deilliannau ychwanegol. Mewn achosion eraill, bydd y buddsoddiadau wedi helpu i roi cyfleoedd i gystadlu yn y farchnad dwristiaeth, er ei bod yn anodd dangos hyn lle'r oedd y buddsoddiad yn fach, yn dameidiog ac yn raddol.

3.11 Edrychodd y gwerthusiad hefyd ar y cwestiwn beth fyddai wedi digwydd pe na bai cyllid yr ERDF wedi bod ar gael. Dangosodd yr ymgynghori na fyddai'r rhan fwyaf o'r buddsoddiadau wedi digwydd, neu y byddent wedi'u gohirio nes i gyllid arall gael ei sicrhau, pe na bai'r cyllid o'r ERDF wedi bod ar gael i'r ddau brosiect. Gan hynny, mae'r cyllid wedi bod yn hollbwysig o ran caniatáu i lawer o'r gweithgareddau hyn fynd yn eu blaen.

**Datblygu'r Prosiectau a'u Cyflawni**

3.12 Mae'r gwerthusiad wedi pwyntio at brofiadau gwahanol ynglŷn â datblygu'r cynlluniau a'r buddsoddiadau a'u rhoi ar waith ar draws y Canolfannau Rhagoriaeth. Mae'n ymddangos bod cydsyniadau strategol cyffredinol y Canolfannau Rhagoriaeth wedi cynnig gweledigaeth gychwynnol a helpodd i lunio'r syniadau a'r dewisiadau cynnar. Ond mae'r nifer fawr o ganolfannau a gweithgareddau buddsoddi a gefnogwyd wedyn â symiau cymharol fach yn dangos bod yr adnoddau a'r ymdrechion mewn rhai achosion wedi'u rhannu'n eang ac felly yn denau.

3.13 O ganlyniad, gwelwyd rhywfaint o'r ffocws strategol cynnar yn pylu mewn rhai achosion. Datblygodd y canolfannau gwahanol yn annibynnol i raddau helaeth heb fawr ddim i'w clymu at ei gilydd. Yn y cyfamser, roedd y cyllid cyfatebol yn dibynnu bron yn llwyr ar gyllid sector cyhoeddus gan yr awdurdodau lleol neu asiantaethau'r llywodraeth. Cyfyngedig oedd y cyllid o'r sector preifat a ddenwyd, a hynny mewn ychydig yn unig o weithgareddau buddsoddi.

3.14 Un neges gref o'r gwerthusiad yw nad oedd digon o gynllunio ymlaen llaw yn achos nifer o'r buddsoddiadau. Gallai hynny fod wedi helpu i osgoi rhai o'r materion a gododd wrth weithredu, er enghraifft ynglŷn â materion ymarferol fel caniatâd cynllunio, cyfyngiadau safleoedd a chostau. Roedd newidiadau yn y cynlluniau cyflawni yn aml yn llyncu amser ac yn ychwanegu pwysau at y broses o gyflawni'r prosiectau. Er y gall fod cyfyngiadau ymarferol ar allu'r

partneriaid cyflawni i wneud gwaith cynllunio a datblygu manylach ar brosiectau cyn cyflwyno cynlluniau busnes a chytuno ar gytundebau ariannu, fe allai cyfnod cychwynnol i gynnull a datblygu ar ôl i'r cyllid gael ei gytuno fod wedi helpu i osgoi'r heriau a'r gohiriadau hyn (mae hyn wedi'i fabwysiadu yn y rhaglenni newydd).

3.15 Cafwyd argraff gadarnhaol o reolaeth gyffredinol y prosiectau yn achos y prosiect Twristiaeth Arfordirol a'r prosiect Twristiaeth Gynaliadwy, gan gynnwys y berthynas â Chroeso Cymru a phartneriaid eraill a weithiodd yn dda. Gwelwyd bod ymrwymiad yr awdurdodau lleol wrth gyflawni buddsoddiadau, gan gydweithio'n aml â phartneriaid a chymunedau lleol, yn agwedd allweddol ar lwyddiant wrth gyflawni prosiect. Roedd hyn hefyd yn cynnwys gweithio ar draws sectorau gyda'r trydydd sector a'r sector preifat ar lefel y prosiect cyffredinol ac ar lefel Canolfannau Rhagoriaeth penodol.

3.16 Roedd gofynion gweinyddol cyllid Ewropeaidd yn rhwystr posibl er bod cyfraniad Croeso Cymru a'r awdurdodau lleol wedi helpu i fynd i'r afael â hyn. Er hynny, byddai rhywfaint o'r gweithgarwch cysylltiedig, gan gynnwys cymorth marchnata a'r hyfforddant amgylcheddol, wedi bod ar ei ennill o gael cynlluniau llawer mwy datblygedig a gwell integreiddio.

3.17 Mae'n bosibl hefyd fod cyflawni'r rhaglen drwy fecanweithiau ariannol Ewrop wedi bod yn rhwystr a oedd yn atal y Canolfannau Rhagoriaeth rhag cael eu hintegreiddio â gweithgareddau eraill yr awdurdodau lleol neu Groeso Cymru. Ceir ymdeimlad na chysylltodd y prosiect â rhannau eraill o gynlluniau awdurdodau lleol neu gynlluniau twristiaeth ehangach, gan fod y gweithrediadau'n cael eu sianelu'n aml drwy swyddogion a oedd yn gyfrifol am gyllid Ewropeaidd yn hytrach na'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd ehangach neu dwristiaeth.

**Marchnata**

3.18 Cynhaliodd Croeso Cymru ymgyrch farchnata genedlaethol lwyddiannus ar thema antur a gweithgareddau awyr agored, gyda chysylltiad agos â'r themâu Twristiaeth Gynaliadwy a Thwristiaeth Arfordirol, a ddilynwyd gan y Canolfannau Rhagoriaeth. Ymdrinnir â hynny mewn gwerthusiad arall a gomisiynwyd gan Groeso Cymru.

3.19 O ran marchnata'r mentrau lleol, prif gonsýrn y mwyafrif o'r rheolwyr ym mhob un o'r Canolfannau Rhagoriaeth oedd cyflawni set o brosiectau, yn brydlon ac o fewn y gyllideb. Mae'r adolygiadau ynglŷn â'r Canolfannau Rhagoriaeth yn awgrymu na chafodd digon o sylw ei roi mewn rhai achosion i gymorth ategol i farchnata'n lleol a'r gweithgareddau yr oedd eu hangen wrth ddod â chynnyrch newydd i'r farchnad. Roedd hyn yn arbennig o wir lle'r oedd y rhai oedd yn gyfrifol am y cyflawni yn aelodau o dîm Cyllid Ewropeaidd.

3.20 Cafwyd cryn amrywio o ran i ba raddau roedd marchnata'n rhan arwyddocaol neu amlwg o'r cais gwreiddiol a'r dyraniad cyllid dilynol; er enghraifft roedd marchnata'n gyfran arwyddocaol o'r cyllid ar gyfer Un Ardd Hanesyddol ond yn ddibwys yn achos Aberdaron, a chynlluniwyd rhai mentrau i fod yn glwstwr a brand cyffredin, megis Cognation ac Un Ardd Hanesyddol. Dim ond Un

Ardd Hanesyddol a oedd fel petai wedi cyfeirio adnoddau arwyddocaol at gyflogi tîm marchnata allanol i gynnal ymgyrch.

3.21 Cafwyd amrywio hefyd o ran i ba raddau roedd Canolfannau Rhagoriaeth gwahanol yn addas ar gyfer ymgyrchoedd marchnata unigol ac roedd diffyg cydlynu o ran marchnata ar y cyd. Mae amrywiaeth y prosiectau, er enghraifft yn Un Antur Fawr Eryri, gyda'u cynulleidfaoedd targed gwahanol, yn her o safbwynt marchnata. Mewn rhai achosion, cafodd gwefannau unigol eu creu yn unswydd ond nid yw'n glir sut roedd traffig yn cael ei yrru i'r gwefannau hyn. Mae gan bartneriaid masnachol neu led-fasnachol (e.e. Harbwr Saundersfoot a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) ymrwymiad parhaus i farchnata'u cyfleusterau. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa y mae'r awdurdodau lleol ynddi, yn enwedig ar adeg pan fo cyllidebau'n lleihau.

**Themâu Trawsbynciol ac Effeithiau Cymdeithasol**

3.22 Disgwylid i'r gweithgareddau a ariannwyd gan yr ERDF yn 2007-2013 ymgorffori themâu trawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal fel themâu ar gyfer economi mwy cytbwys, cynaliadwy ac arloesol. Roedd gan bob un o'r cynlluniau busnes ar gyfer canolfannau o dan ymbarél y prosiectau 'Cynaliadwy', 'Arfordirol' a 'Moroedd Glas' uchelgais ynglŷn â nodau amgylcheddol; a gosododd pob un uchelgais ynglŷn ag anabledd – yn benodol mynediad ffisegol i bobl ag anableddau a chyfleoedd hamdden ac addysg i bobl mewn grwpiau incwm isel fel thema ar draws y prosiectau. Bu Croeso Cymru'n rhagweithiol yn helpu'r Canolfannau Rhagoriaeth i gynllunio ar gyfer y themâu trawsbynciol hyn a'u gwireddu, gan gynnwys amryw o weithdai thematig a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon a WRAP. Argraff ansoddol gadarnhaol a welwyd yn bennaf wrth ymgynghori, sef bod y prosiectau wedi mynd ati i gyrraedd y nodau hyn a'u bod wedi gwneud cynnydd. Ceir enghreifftiau o arferion da megis Gerddi Aberglasni (gweler adolygiadau'r Canolfannau Rhagoriaeth).

3.23 Er hynny, mae yna heriau dealladwy wrth fonitro cynnydd a gwerth y mathau hyn o nodau amgylcheddol a chymdeithasol – nid deilliannau ariannol neu ffisegol mohonynt. Cyfyngedig oedd y canllawiau oddi wrth WEFO ar lefel y rhaglen ac, er ein bod yn cadw hyn mewn cof, ychydig yn unig o awgrym sydd o ddefnyddio ymagwedd systemataidd a chyson o fewn y gwahanol ganolfannau neu o'u mewn. Does dim set glir o ddangosyddion wedi'i defnyddio a does dim adroddiadau ar y rhain wedi'u cyflwyno ochr yn ochr â dangosyddion perfformiad craidd yr ERDF. Er bod yr angen am asesiad o'r effaith gymdeithasol wedi'i nodi yn yr adroddiad gwerthuso yng nghanol y cyfnod, nid yw'n ymddangos bod un wedi'i fabwysiadu fel dull ffurfiol i fonitro effeithiau a chyflwyno adroddiadau arnynt.

## 4. Effeithiau'r Gwaddol

4.1 Y bwriad oedd y byddai'r buddsoddiadau a gafwyd drwy'r Canolfannau Rhagoriaeth yn hunangynhaliol yn ariannol yn y tymor hirach lle bynnag y byddai modd. Mae i ba raddau y bydd y canolfannau a'r gweithgareddau buddsoddi gwahanol yn parhau ar ôl diwedd cyllid yr ERDF yn gymysg. Mae'r amrediad o fuddsoddiadau cyfalaf mewn harbyrau a marinâu, llwybrau a llwybrau beicio, adeiladau a chyfleusterau yn waddol ffisegol pendant o ran seilwaith ac mae'n gwella'r arlwy i'r ymwelwyr a'r trigolion. Yr hyn sy'n llai eglur yw sut y bydd costau parhaus cynnal neu redeg y cyfleusterau'n cael eu talu, naill ai drwy eu prif-ffrydio yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus neu'n hunangynhaliol drwy greu incwm.

4.2 Roedd llawer o'r canolfannau'n rhag-weld y cyllid a fyddai'n angenrheidiol yn y tymor hirach a gwnaethant fuddsoddiadau gan anelu at ddod yn hunangynhaliol drwy godi eu refeniw eu hunain, er enghraifft drwy werthu tocynnau (megis Bike Park Cymru) a thaliadau am barcio ceir, neu drwy siopau a chyfleusterau caffi. Yn naturiol ddigon, mae'r darlun hwn yn amrywio ar draws y canolfannau gyda'r rhai sydd o dan arweiniad preifat (neu o dan arweiniad ymddiriedolaeth) yn fwy pendant yn fasnachol o'u cymharu â'r rhai sy'n cael eu harwain gan y sector cyhoeddus ac sy'n darparu amwynderau cyhoeddus lleol. Dechreuodd rhai prosiectau (fel rhannau o Chwaraeon Dŵr Abertawe) fel mentrau yn y sector cyhoeddus ac symud tuag at sail fwy masnachol. Roedd rhai partneriaid cyflawni'n fwy optimistaidd y deuai gweithgareddau'n hunangynhaliol gan greu refeniw o'r ymwelwyr heb ragor o gymorth cyhoeddus.

4.3 Er hynny, nododd y gwerthusiad bryderon arwyddocaol ymysg rhai prosiectau o dan arweiniad y sector cyhoeddus ynghylch yr adnoddau a fyddai ar gael yn y dyfodol yn y sector cyhoeddus i gynnal a marchnata'r cyfleusterau hyn ac i ail-fuddsoddi ynddynt. Mae'n eglur bod y pryderon hyn wedi'u chwyddo gan y toriadau yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus.

4.4 Yn fyr, nid yw effeithiau'r gwaddol na'r effaith barhaus ar y sectorau, y cynhyrchion a'r busnesau a dargedwyd yn glir eto a bydd angen asesu hyn yn y blynyddoedd sy'n dod.

## 5. Gwersi

5.1 Mae'r gwerthusiad yn pwyntio at nifer o wersi a fydd yn helpu i lywio datblygiad Canolfannau Rhagoriaeth twristiaeth neu fuddsoddiadau mewn seilwaith a chyfleusterau twristiaeth penodol yn y dyfodol:

- Ar lefel y Canolfannau Rhagoriaeth, ceir manteision pendant o safbwynt datblygu twristiaeth ac effaith economaidd o ran crynhoi adnoddau'n fwy yn hytrach na rhannu adnoddau'n deneuach ar draws nifer o flaenoriaethau twristiaeth, o ran lleoedd a themâu. Mae'r wers hon yn berthnasol i Groeso Cymru ac i gyrff cyflawni sy'n ymwneud â dylunio Canolfannau Rhagoriaeth.

- Pwysigrwydd gwaith datblygu mwy trylwyr yn gynnar gan gyrff cyflawni ynglŷn â'r gweithgareddau buddsoddi arfaethedig yn y Canolfannau Rhagoriaeth, a fydd yn helpu i osgoi'r risgiau i'r cyflawni, neu o leiaf i'w rheoli'n well. Gan y gall fod cyfyngiad ar faint y mae'r cyrff cyflawni yn fodlon ei wneud neu'n gallu ei wneud cyn i'r grant gael ei gymeradwyo, gellir goresgyn hyn drwy gynnwys cyfnod cynnull a datblygu yn yr amserlenni cyflawni. Mae'r wers hon yn berthnasol i WEFO yn benodol, ond dylai gael ei chadw mewn cof hefyd gan Groeso Cymru a chyrff cyflawni sy'n ymwneud a dylunio Canolfannau Rhagoriaeth.
- Cymorth a chanllawiau oddi wrth Groeso Cymru i'r Canolfannau Rhagoriaeth a'r partneriaid cyflawni er mwyn datblygu gweithgareddau marchnata perthnasol a sicrhau bod y rhain yn cael eu hintegreiddio ag ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol cyffredinol yn ogystal ag ymdrechion lleol. Lle bo'n briodol, gall hyn gael ei gyflawni drwy sicrhau bod Croeso Cymru'n darparu canllawiau a chymorth i'r Canolfannau Rhagoriaeth a'r partneriaid cyflawni, i'w galluogi i ddatblygu eu strategaethau eu hunain ac integreiddio hyn â'r ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol.
- Sicrhau bod y Canolfannau Rhagoriaeth a'u partneriaid cyflawni'n datblygu fframwaith monitro a gwerthuso clir a hynny ar sail theori glir ynglŷn â newid er mwyn caniatáu i ddata gael ei gasglu cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnodau terfynol y buddsoddiad; cynnwys targedau CCT ar lefel y buddsoddiad; rhoi eglurder ynghylch y waelodlin y caiff y newid ei fesur yn ei herbyn, sicrhau bod gofynion ynghylch monitro wedi'u deall gan yr holl reolwyr a'r holl bartneriaid cyflawni. Cyfrifoldeb y Canolfannau Rhagoriaeth a'u partneriaid cyflawni fydd y rhain yn y pen draw, ond mae angen i Groeso Cymru ddarparu'r canllawiau i'w galluogi i wneud hyn yn effeithiol ac yn gydlynol.
- Mae'n arbennig o bwysig bod y fframwaith hwn yn sefydlu'r ymagwedd at asesu effaith wrthffeithiol gyffredinol y buddsoddiadau ac yn creu sail ar gyfer y gwaith asesu hwnnw (hynny yw, yr hyn y gellid disgwyl iddo gael ei ysgwyddo pe na bai'r buddsoddiadau a gefnogwyd gan yr ERDF ar gael). Bydd hyn bob amser yn anodd yn achos buddsoddiadau bach a buddsoddiadau sy'n wasgaredig yn ddaearyddol, ond mae'n fwy ymarferol i fuddsoddiadau mwy, sy'n bendant o ran daearyddiaeth ac yn creu mwy o effaith. Dylai Croeso Cymru gymryd yr awenau i archwilio a datblygu dichonoldeb y dulliau hyn ac i ddarparu canllawiau i'r partneriaid cyflawni fel y bo'n briodol.
- Yn achos prosiectau fel y Canolfannau Rhagoriaeth, sydd â sawl haen o reoli a chyflawni, darparu canllawiau clir ar gyfrifoldebau'r partneriaid ar bob lefel o ran gwaith monitro, adrodd a chofnodi manwl-gywir. Mae'n eglur bod yr ymagwedd hon wedi gweithio'n dda i sicrhau bod modd agregu data at ddibenion adroddiadau cyffredinol i WEFO, ond mae angen rhoi lle hefyd i ddadagregu data i lefel y buddsoddiadau unigol at ddibenion gwerthuso (ac egluro i reolwyr Canolfannau Rhagoriaeth fod angen trefnu bod y data ar gael i werthuswyr ar y sail hon).

- Ymgysylltu'n gynharach â'r partneriaid cyflawni ynghylch sut i hybu egwyddorion trawsbynciol cynaliadwyedd, tegwch ac effaith gymdeithasol yn eu prosiectau. Mae hyn yn gymwys hefyd i waith cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor a gwaddol y buddsoddiadau eu hunain, gan roi eglurder ar sut y caiff seilwaith a chyfleusterau newydd i ymwelwyr eu cynnal a'u marchnata a sut yr ail-fuddsoddir ynddynt.
- Sicrhau bod y partneriaid cyflawni'n eglur o ran ar ba sail y maen nhw'n monitro ymweliadau ac ymwelwyr, sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'u targedau gwreiddiol ac a ydyn nhw'n cael eu cofnodi ar sail gros ynteu ar sail net. Mae'n eglur bod dryswch wedi bod ymysg rhai o'r partneriaid a newidiadau yn y mesuriadau a ddefnyddiwyd dros amser ac mewn adroddiadau gwahanol.

Awduron yr adroddiad: Regeneris Consulting Ltd a The Tourism Company Ltd

Yr adroddiad Ymchwil Llawn: Regeneris Consulting and the Tourism Company 2017. Gwerthusiad o'r Prosiectau Twristiaeth Arfordirol a Thwristiaeth Gynaliadw. Caerdydd: Llywodraeth Gwybodaeth, adroddiad GSR rhif 1/2018.

Ar Gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-coastal-sustainable-tourism-projects/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai o eidoo'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd yn rhai Llywodreath Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanne Coates
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Gwybodaeth, Parc Cathays,
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Joanne.coates@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78903-323-6